OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 906 (Cy. 197) (C. 64)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022

*Gwnaed - - - - 12 Awst 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 257(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**) ac adran 38(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019(**2**).

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Rhagfyr 2022 yw'r diwrnod penodedig i'r Ddeddf ddod i rym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

(**1**) 2016 dccc 1.

(**2**) 2019 dccc 4. Caniateir i'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 38 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 gael ei arfer i wneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o'r Ddeddf honno.

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

**3.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022(**3**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

**4.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022(**4**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

**5.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022(**5**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Ergl. 5 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

**6.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022(**6**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Ergl. 6 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

(**3**) O.S. 2022/6 (Cy. 4).
(**4**) O.S. 2022/22 (Cy. 10).
(**5**) O.S. 2022/23 (Cy. 11).
(**6**) O.S. 2022/24 (Cy. 12).

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

**7.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022(**7**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Ergl. 7 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022

**8.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022(**8**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Ergl. 8 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cymru) 2022

**9.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cymru) 2022(**9**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Ergl. 9 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2022

**10.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2022(**10**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Ergl. 10 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

(**7**) O.S. 2022/28 (Cy. 13).
(**8**) O.S. 2022/143 (Cy. 46).
(**9**) O.S. 2022/244 (Cy. 72).
(**10**) O.S. 2022/245 (Cy. 73).

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022

**11.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022(**11**), yn lle "y diwrnod y mae adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I11** Ergl. 11 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

**12.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022(**12**), yn lle "y diwrnod y mae adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I12** Ergl. 12 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022

**13.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022(**13**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I13** Ergl. 13 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

### Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithas Dai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022

**14.** Yn rheoliad 1 o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Tenantiaethau Cymdeithas Dai: Darpariaethau Sylfaenol) 2022(**14**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I14** Ergl. 14 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

(**11**) O.S. 2022/250 (Cy. 76).
(**12**) O.S. 2022/256 (Cy. 78).
(**13**) O.S. 2022/781 (Cy. 170).
(**14**) O.S. 2022/799 (Cy. 176).

**Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022**

**15.** Yn rheoliad 1(1) o Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio) 2022(**15**), yn lle "y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym", rhodder "1 Rhagfyr 2022 (y diwrnod y daw adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Ergl. 15 mewn grym ar 13.8.2022, gweler **ergl. 1(2)**

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o
Weinidogion Cymru

(**15**) O.S. 2022/803 (Cy. 179).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch tenantiaethau a thrwyddedau sy'n rhoi'r hawl i feddiannu annedd fel cartref, gan gynnwys darpariaeth sy'n sefydlu dau fath o gontract at ddiben rhentu cartrefi ac at ddibenion cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf wedi ei diwygio gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn y Ddeddf i rym, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ar 1 Rhagfyr 2022.

Er mwyn paratoi ar gyfer dyfodiad gweddill y Ddeddf i rym, mae 13 o offerynnau statudol o sylwedd wedi eu gwneud o dan ddarpariaethau galluogi amrywiol o fewn y Ddeddf. Mae 12 o'r offerynnau statudol hynny wedi eu gwneud ar y sail y byddant yn dod i rym ar y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym.

Mae adran 38(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau sy'n disgrifio dyddiad neu amser drwy gyfeirio at ddyfodiad deddfiad i rym, a hynny â'r gwir ddyddiad neu amser (unwaith y bydd yn hysbys).

Drwy arfer y pŵer hwnnw, mae erthyglau 3 i 15 yn diwygio'r 12 o offerynnau statudol i roi cyfeiriad at 1 Rhagfyr 2022 yn lle cyfeiriadau at y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym yn rhannol drwy Orchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2016 (O.S. 2016/813) (Cy. 203) (C. 57) at y dibenion a bennir yn y tabl isod—

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 23 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 29 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 32(4) (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 45(3) (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 94 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 112 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 116(4) (at ddiben dyroddi canllawiau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 131 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 146(1) (at ddiben dyroddi canllawiau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 203(5) a (6) (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 221 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Adran 236(3) a (4) (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 15(10) o Atodlen 2 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 17 o Atodlen 2 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 10(2) o Atodlen 3 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 15(3) a (4) o Atodlen 3 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 17 o Atodlen 3 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 4(7) ac (8) o Atodlen 4 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 1(6) o Atodlen 5 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 5(7) ac (8) o Atodlen 7 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 15(2) o Atodlen 12 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |
| Paragraff 33 o Atodlen 12 (at ddiben gwneud rheoliadau) | 5 Awst 2016 |

*Gweler* adran 257(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022.